Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Ymchwiliad gorfodi safonau: Adroddiad a hysbysiad penderfynu

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 73 ac adran 74 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cynhaliwyd yr ymchwiliad i amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau a bennir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 71 ac Atodlen 10 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Rhif achos: CSG633

Dyddiad: 17 Mehefin 2021

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, a thrwy reoleiddio cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**Manylion cyswllt**


- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygymraeg.cymru
- Gwefan: comisiynyddygymraeg.cymru
- Post: Comisiynydd y Gymraeg
  Siambrau'r Farchnad
  5–7 Heol Eglwys Fair
  Caerdydd
  CF10 1AT

# Cyd-destun deddfwriaethol

**Rhan 4 Mesur y Gymraeg**

i. Mae Rhan 4 Mesur y Gymraeg yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Gelwir sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau yn 'bersonau perthnasol'. Ceir safonau yn y meysydd canlynol:

- cyflenwi gwasanaethau;
- llunio polisi;
- gweithredu;
- hybu;
- cadw cofnodion.

ii. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu bod rhaid i bersonau perthnasol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylent hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

iii. Mae hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol gan y Comisiynydd dan Ran 4 Mesur y Gymraeg yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol cydymffurfio â hwy, ynghyd â'r diwrnodau oddi ar bryd y mae'n ofynnol cydymffurfio â'r safonau hynny neu gydymffurfio â'r safonau hynny mewn modd penodol ('diwrnodau gosod'). Bydd copïau ar wefan y Comisiynydd o'r hysbysiadau cydymffurfio sydd mewn grym.

iv. Tra bydd hysbysiad cydymffurfio sy'n benodol i berson perthnasol mewn grym, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a bennwyd ynddo.

**Rhan 5 Mesur y Gymraeg**

v. Mae Rhan 5 Mesur y Gymraeg yn rhoi swyddogaethau rheoleiddiol statudol i'r Comisiynydd er mwyn sicrhau bod personau perthnasol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Gall dyletswyddau gynnwys cydymffurfio â safonau'r Gymraeg (fel y nodir uchod), ac hefyd ofyniadau a osodir ar bersonau gan y Comisiynydd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg yn sgil methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch sut y bydd y Comisiynydd yn arfer y swyddogaethau rheoleiddiol hynny.

vi. Y swyddogaethau rheoleiddiol sy'n deillio o Ran 5 Mesur y Gymraeg yw:

- ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cwynion ynghylch ymddygiad personau perthnasol;
- ymchwilio i amheuon o fethiant gan bersonau perthnasol i gydymffurfio â dyletswyddau, dyfarnu ar ymchwiliadau a llunio adroddiadau ar ymchwiliadau;
- ystyried ai i weithredu ymhellach (drwy roi argymhellion neu gyngor) ai peidio os yw ymchwiliad yn canfod na fu methiant i gydymffurfio;
- cymryd un o'r tri cham isod os yw ymchwiliad yn canfod y bu methiant i gydymffurfio:
    - peidio â gweithredu ymhellach;
    - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
        - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
        - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
        - rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
        - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
        - gosod cosb sifil ar y person perthnasol.
    - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
        - rhoi argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
        - rhoi cyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
        - ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol.
- gwneud ceisiadau i lys sirol am orchmynion llys i orfodi cydymffurfiaeth;
- cydymffurfio â dyletswyddau sy'n deillio o apeliadau i Dribiwnlys y Gymraeg a cheisiadau am adolygiadau gan y Tribiwnlys;
- llunio dogfen polisi gorfodi;
- creu a chynnal cofrestr camau gorfodi.

vii. Bydd y Comisiynydd yn dilyn y prosesau statudol gofynnol wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol.

viii. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn cynnwys gwybodaeth lawn ynghylch y ffordd y bydd y Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cylch gorchwyl | 1 |
| 2 | Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad | 3 |
| 3 | Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad | 6 |
| Hysbysiad penderfynu | | 16 |

# 1 Cylch gorchwyl

**Cefndir**

1.1 Mae'r ymchwiliad hwn yn ystyried penderfyniad polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) i adrefnu ysgolion fel rhan o'i gynllun Ysgolion yr 21ain Ganrif ym Mhontypridd.

1.2 Un o'r penderfyniadau oedd yn gysylltiedig â'r adrefnu oedd argymhelliad i gau Ysgol Pont Siôn Norton ac i agor ysgol Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Heol-y-Celyn yn Rhydfelen erbyn 2022. Dyma sut yr amlinellodd y Cyngor ei fwriad fel rhan o'r cynllun:

> Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton a sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Heol-y-celyn. Bydd ffrwd Gymraeg Ysgol Heol-y-celyn hefyd yn trosglwyddo i'r ysgol newydd. Bydd hyn yn cynyddu capasiti ac yn gwella'r ddarpariaeth addysg Gymraeg. Bydd hefyd yn cael gwared ar y ddarpariaeth dwy ffrwd.

1.3 Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus ar y bwriad yma (ac eraill oedd yn rhan o'r cynllun) rhwng 15 Hydref 2018 ac 31 Ionawr 2019.

1.4 Ar 21 Mawrth 2019 penderfynodd cabinet y Cyngor dderbyn yr argymhelliad i gau Ysgol Pont Siôn Norton a buddsoddi £10.7 miliwn ar gyfer adeiladu ysgol newydd ar safle presennol Ysgol Heol-y-Celyn.

1.5 Arweiniodd hyn at gyhoeddi hysbysiad statudol ar gyfer datgan gwrthwynebiad ar 30 Ebrill 2019. Yn dilyn ystyried ymatebion i'r hysbysiad statudol, penderfynodd y Cyngor fwrw ymlaen efo'r cynllun ar 18 Gorffennaf 2019.

**Amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg**

1.6 Daeth y mater i'm sylw yn dilyn cyswllt gan rieni disgyblion Ysgol Pont Siôn Norton. Er eu bod yn derbyn nad oedd adeilad presennol yr ysgol yn ffit i bwrpas, ac yn croesawu bwriad y Cyngor i fuddsoddi yn addysg Gymraeg yr ardal, roedd ganddynt bryderon ynghylch y penderfyniad. Roeddent o'r farn y byddai symud addysg y plant o'r safle presennol yn ngogledd Pontypridd i Rhydfelen yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg yn y gymuned.

1.7 Roeddent yn dadlau y byddai'r cynllun i adleoli safle'r ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i rai o ddisgyblion presennol Ysgol Pont Siôn Norton deithio ymhellach er mwyn derbyn addysg Gymraeg (taith o dros chwe milltir o'u cymunedau yn Ynysybwl, Glyncoch a Choedycwm) gan basio sawl ysgol cyfrwng Saesneg ar y ffordd. Byddai hefyd yn anoddach, yn ôl y rhieni, i wneud defnydd o ofal cofleidiol.

1.8 Roedd y rhieni o'r farn nad oedd y Cyngor wedi ystyried yn ddigonol opsiynau amgen i warchod safle'r ysgol at ddefnydd cymunedau gogledd Pontypridd.

1.9 Roedd cyswllt y rhieni yn gyfystyr â phersonau â diddordeb yn codi pryderon ynglŷn â chydymffurfiaeth â safonau yn unol ag adran 93 o Fesur y Gymraeg. Fodd bynnag,

gan nad oedd y Cyngor wedi gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig a oedd yn destun ymgynghoriad, nid oedd yn briodol nac yn gymesur i ymchwiliad gael ei gynnal ar y pwynt hwnnw. Gan fod gennyf ddisgresiwn eang i gychwyn ymchwiliad yn unol ag adran 93(8)[1], roeddwn o'r farn ei bod yn briodol, wedi i'r Cyngor wneud ei benderfyniad terfynol, i gychwyn ymchwiliad fy hun i sefydlu a fethwyd i gydymffurfio â safonau llunio polisi pan wnaed y penderfyniad terfynol hwnnw.

1.10 Rhoddais hysbysiad o'r penderfyniad i ymchwilio, ac o'r cylch gorchwyl arfaethedig, i'r Cyngor ar 4 Hydref 2019.

**Safonau perthnasol**

1.11 Mae'r Cyngor dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau isod, ac roedd dan ddyletswydd i wneud hynny yn ystod y cyfnod dan sylw:

**Safon 88**
Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar—
(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Safon 89**
Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—
(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Safon 90**
Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—
(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Diwrnod gosod:** 30 Mawrth 2016

[1] Yn unol ag adran 93(8) o'r Mesur, mae gan y Comisiynydd ddisgresiwn eang i gynnal ymchwiliad, hyd yn oed os na fodlonir amodau is-adrannau 93(3) i 93(6) neu os nad yw ffactorau is-adran 93(7) yn gymwys.

# 2 Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad

**Hysbysiad tystiolaeth**

2.1 Ar 31 Hydref 2019, rhoddais hysbysiad tystiolaeth i'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu'r dystiolaeth ganlynol.

**Gwybodaeth a dogfennau**

1. Yng nghyd-destun y penderfyniad polisi i gau Ysgol Pont Siôn Norton, darparwch gopïau o bob ystyriaeth roddodd y Cyngor i ba effeithiau, os o gwbl, y byddai'r penderfyniad yn cael ar:
   (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
   (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

   Darparwch gopïau o unrhyw asesiadau effaith ar y Gymraeg, asesiadau effaith ar y gymuned neu unrhyw asesiadau eraill cwblhawyd ar effaith bosib y byddai'r penderfyniad polisi yn cael ar y Gymraeg.

   Darparwch gopïau o gofnodion unrhyw gyfarfodydd ble rhoddwyd ystyriaeth i effeithiau posib y byddai'r penderfyniad polisi yn cael ar y Gymraeg.

2. Darparwch dystiolaeth ynghylch sut bu'r Cyngor ystyried sut y gellid llunio'r penderfyniad polisi dan sylw fel y byddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar:
   (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
   (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3. Darparwch dystiolaeth ynghylch sut bu'r Cyngor ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi dan sylw, fel na fyddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar:
   (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
   (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

4. Darparwch unrhyw ganllawiau neu drefniadau mae'r Cyngor wedi datblygu ar gyfer cydymffurfio â'r safonau llunio polisi.

5. Os nad oedd trefniadau'r Cyngor wedi eu dilyn yn yr achos yma, esboniwch pam.

6. Darparwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol yr ydych am i'r Comisiynydd ei hystyried wrth ddyfarnu ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.

7. Darparwch gopi o unrhyw bolisi, gweithdrefn, canllaw neu ddogfen arall yr ydych am i'r Comisiynydd ei ystyried wrth ddyfarnu ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.

2.2 Derbyniais dystiolaeth mewn ymateb i'r cwestiynau uchod gan y Cyngor ar 28 Tachwedd 2019.

2.3 Fel rhan o'r dystiolaeth darparodd y Cyngor gopïau o'r dogfennau canlynol:

- Dogfen Ymgynghori – "Ymgynghoriad ar ad-drefnu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a darpariaeth chweched dosbarth yn ardal Pontypridd";
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned;
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned – diwygiedig;
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg;
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, diwygiedig, a gyhoeddwyd yn rhan o Adroddiad y Cabinet;
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, diwygiedig, a gyhoeddwyd yn rhan o Adroddiad y Cabinet;
- Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2018;
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Cynigion i wella darpariaeth addysg yn Ardal Ehangach Pontypridd – Adroddiad y Cabinet 2 Hydref 2018;
- Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc a gynhaliwyd ar 26 Medi 2018;
- Adroddiad ar Gynnydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg – Adroddiad y Pwyllgor;
- Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr;
- Ymgysylltiad y Pwyllgor Craffu â Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y 21ain Ganrif – Adroddiad y Pwyllgor;
- Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2019;
- Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2019;
- Rhaglen Ysgolion ar 21ain Ganrif – Cynigion i ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Ysgolion Uwchradd a Darpariaeth Chweched Dosbarth yn ardal ehangach Pontypridd – Adroddiad y Cabinet 21 Mawrth 2019;
- Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2019;
- Cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (Cyfarfod 'Galw i Mewn') a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2019;
- Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2019;
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Cynigion i Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Ysgolion Uwchradd a Darpariaeth Chweched Dosbarth yn ardal ehangach Pontypridd – Adroddiad y Cabinet 18 Gorffennaf 2019;
- Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019;
- Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2019;
- Cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (Cyfarfod 'Galw i Mewn') a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2019;
- Polisi a Gweithdrefnau Diwygiedig ar gyfer Enwi Strydoedd a Rhifo Tai – Adroddiad y Cabinet 24 Tachwedd 2015;
- Recriwtio a Dethol yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf – cyhoeddwyd y Weithdrefn ym mis Ionawr 2018.

2.1 Ystyriais yr holl wybodaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth.

# 3 Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad

**Geiriad y safonau**

3.1 Dyma eiriad y safonau perthnasol fel y maent yn ymddangos yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i'r Cyngor:

**Safon 88**
Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar–

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Safon 89**
Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar–

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Safon 90**
Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar–

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dehongliadau**

3.2 Mae Atodlen 2, Rhan 2, paragraff 2, o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn diffinio penderfyniad polisi fel 'unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall'. Mae hynny'n cynnwys, ymysg pethau eraill, penderfyniadau ynghylch:

(a) cynnwys deddfwriaeth;
(b) arfer pwerau statudol;
(c) cynnwys datganiadau polisi;
(ch) strategaethau neu gynlluniau strategol; a
(d) strwythurau mewnol.

3.3 Mae cyfeiriadau yn y safonau at effeithiau positif neu effeithiau andwyol yn golygu effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol.

**Gofynion y safonau**

3.4 Mae’r safonau llunio polisi yn ymwneud â’r ffordd y mae corff yn ystyried effeithiau ei benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

3.5 Mae p’un a wyf yn cytuno neu'n anghytuno â’r penderfyniad a wnaed gan y Cyngor i adrefnu ei darpariaeth addysg yn ardal Pontypridd, gan gynnwys y penderfyniad i gau Ysgol Pont Siôn Norton, yn amherthnasol ac ni ffurfiodd unrhyw ran o fy ymchwiliad, fy ystyriaeth o'r materion perthnasol na’r gwaith o baratoi’r adroddiad hwn.

3.6 Rwy’n llwyr gydnabod bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu darpariaeth addysgol yn unol â chanllawiau a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.

3.7 Fodd bynnag, mae gen i’r grym i ystyried a dod i ddyfarniad ynglŷn â chydymffurfiaeth y Cyngor â safonau 88, 89 a 90 wrth iddo wneud penderfyniadau polisi. Mae’r safonau yn gyfundrefn statudol unigryw sy’n sefyll ar wahân i’r Cod Trefniadaeth Ysgolion a dyletswyddau cyffredinol y Cyngor o dan y gyfraith gyhoeddus wrth wneud penderfyniadau.

3.8 Yn benodol, mae safonau 88, 89 a 90 yn gofyn fod y Cyngor yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl, y byddai penderfyniad polisi yn eu cael ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, ac a ellid llunio neu newid y penderfyniad polisi fel ei fod yn cynyddu’r effeithiau positif ac yn lleihau’r effeithiau andwyol.

3.9 Golyga hyn bod angen i’r Cyngor wneud ymdrech gydwybodol i adnabod ac ystyried yr effeithiau y gall penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3.10 Er nad yw geiriad safonau 88 i 90 yn rhagnodi'r math o effeithiau y mae'n rhaid eu hystyried, mae'n rhesymol i mi feddwl am y math o effeithiau y gallai'r Cyngor fod wedi eu hystyried wrth i mi gloriannu ansawdd ei ymdrechion i gydymffurfio â’r safonau. Er enghraifft, gallai’r Cyngor fod wedi gofyn:

- A fydd y cynnig yn cael effaith ar y nifer neu’r ganran o bobl sy’n gallu siarad Cymraeg (neu unrhyw sgil arall yn ymwneud â’r iaith)?
- A fydd y cynnig yn cael effaith ar y nifer neu’r ganran o bobl sy’n defnyddio’r Gymraeg?
- A fydd y cynnig yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi treftadaeth a diwylliant yr ardal dan sylw mewn perthynas â’r Gymraeg?

3.11 Gelid gofyn y cwestiynau hyn fel rhan o asesiad effaith ieithyddol ehangach ble mae’r sawl sy’n gwneud y penderfyniad yn ceisio:

- Nodi effeithiau positif y polisi ar y Gymraeg;
- Nodi effeithiau andwyol y polisi ar y Gymraeg;
- Ystyried sut y gallai’r polisi neu’r ymarfer hyrwyddo’r cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg yn ehangach;
- Ystyried a fydd y polisi yn effeithio ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg;

3.12 Wedi adnabod yr effeithiau, mae safon 89 yn gofyn fod ymdrech gydwybodol debyg yn cael ei gwneud wedyn i ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae safon 90 yn gofyn i'r sawl sy'n gwneud penderfyniad ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3.13 Fel arfer, mae cydymffurfio â safonau 89 and 90 yn gofyn fod ymdrech gydwybodol yn cael ei gwneud i ystyried *opsiynau* gwahanol ar gyfer lliniaru neu atal effeithiau andwyol y gallai'r penderfyniad polisi ei gael ar yr iaith Gymraeg; nid yw'n fater o adnabod ac wedyn bodloni ar y mesurau lliniaru lleiaf posibl os oes mesurau lliniaru mwy ystyrlon sy'n ddichonadwy ac y dylid eu hystyried. Mae hyn yn ymhlyg yn yr angen i ystyried sut y 'gellid' llunio'r polisi, neu sut y 'gellid' newid polisi cyfredol. Bydd fel arfer hefyd yn angenrheidiol ystyried y ffyrdd gwahanol posibl o sicrhau effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Unwaith eto, nid mater ydyw o adnabod ac wedyn bodloni ar yr effeithiau positif lleiaf posibl.

3.14 Wrth asesu cydymffurfiaeth â'r safonau hyn, byddaf yn asesu'r dystiolaeth a gyflwynir i mi yn ei chyfanrwydd. Safonau ymarferol yw'r safonau y bwriedir iddynt weithredu yn y byd go iawn. Nid yw methu ag adnabod un math penodol o effaith ar yr iaith Gymraeg yn golygu o reidrwydd fod safon wedi ei thorri os yw'r dystiolaeth, fel arall, yn dangos y gwnaed ymdrech gydwybodol i adnabod yr effeithiau. Yn y pen draw, yr hyn yr wyf ei angen yw tystiolaeth y gwnaed ymdrech gydwybodol.

**Ystyried cydymffurfiaeth â'r safonau**

3.15 Fe wnaeth y Cyngor ddatgan yn ei ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth ei fod o'r farn ei fod wedi cydymffurfio â'r safonau hyn. Darparodd sylwadau a'r dogfennau a restrir uchod fel tystiolaeth o'i gydymffurfiaeth.

3.16 Esboniodd y Cyngor ei fod wedi cynnal asesiad o'r effaith ar y gymuned, asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ac asesiad effaith ar gydraddoldeb fel rhan o'r broses ar gyfer ystyried effaith posib newid y ddarpariaeth. Yn ei ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth, cyfeiriodd yn benodol at y datganiadau canlynol yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg:

> *"Bydd dalgylch yr ysgol newydd yn cynnwys dalgylchoedd y ddwy ysgol bresennol. Bydd adleoli Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton i safle Heol-y-Celyn yn golygu y bydd pob disgybl sy'n byw yn nalgylch presennol yr ysgol yma yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol gan y byddan nhw'n byw yn bellach na 1.5 milltir o'r ysgol newydd. Fydd yr un plentyn yn rhan Heol-y-Celyn y dalgylch yn gymwys oherwydd na fydd yn byw yn bellach na milltir o'r ysgol. Dydyn ni ddim o'r farn y bydd y pellter yma'n rhwystro plant sydd am gymryd rhan yn y darpariaethau cyn, ac ar ôl, yr ysgol a fydd yn cael ei chynnig yn yr ysgol newydd rhag gwneud hynny; fydd yr un plentyn yn cymryd mwy na 20 munud i deithio i'r ysgol."* (Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, tud.2)

*"Bydd yr holl wasanaethau sy'n cael eu darparu y tu allan i oriau ysgol yn Ysgolion Cynradd Cymraeg Pont Siôn Norton a Heol-y-Celyn, er enghraifft, clybiau brecwast, clybiau ar ôl yr ysgol a chyfleusterau cymuned eraill, yn parhau yn yr adeilad newydd. Byddwn ni'n cynnal unrhyw gysylltiadau â sefydliadau allanol, er enghraifft, yr Urdd, Menter Iaith, ac ati. Rydyn ni'n gobeithio y bydd y cysylltiadau yma'n cael eu cryfhau a'u hehangu. Bydd i'r adeilad ysgol newydd ystafell gymuned, a bydd y Pennaeth yn cael ei annog i ystyried defnyddio'r cyfleuster yma i annog ymddiddori yn yr Iaith Gymraeg, er enghraifft, drwy gynnig cyfleoedd i rieni ac aelodau eraill o'r gymuned i ddysgu Cymraeg."* (Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, tud.1)

3.17 Yn ei ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth, cyfeiriodd y Cyngor at gamau gweithredu ei gynllun strategol y Gymraeg mewn addysg sy'n cynnwys targedau i gynyddu'r nifer o blant sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd y bydd y cynllun ar gyfer yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cyflawni'r targedau drwy agor ysgol gyda nifer priodol o lefydd i fodloni rhagolygon o ran galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a throi ysgol gynradd dwy iaith yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig.

3.18 Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd yn cynnwys y tabl isod:

| Pobl / materion i'w hystyried | A fydd y polisi / arfer yn cael effaith....? | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol | Negyddol | Niwtral (dim effaith) | Esboniwch unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol: |
| Cymraeg | Bydd | | | Ysgol Gymraeg newydd, wedi'i hadeiladu yn ôl safonau Ysgolion yr 21 Ganrif, â lleoedd ychwanegol i roi rhagor o ddewis i rieni ynglŷn â pha gyfrwng iaith y mae modd iddyn nhw ei ddewis ar gyfer eu plant. |

3.19 Cyfeiriodd y Cyngor at ei sylwadau o fewn y dogfennau ymgynghori ynghylch seiliau eraill oedd wedi arwain at y cynnig i symud yr ysgol. Yn bennaf yr angen i greu ysgol hygyrch oedd hyn gan nad yw safle presennol Ysgol Pont Siôn Norton yn cynnig mynediad i blant ac oedolion gydag anawsterau symudedd. Dywedodd y cyngor y byddai safle hygyrch newydd yn cynyddu cyfleoedd i blant a phobl defnyddio'r Gymraeg.

3.20 Byddai'r safle newydd hefyd yn cynnwys cyfleusterau chwarae awyr agored nad oes gan y safle presennol.

3.21 Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y ddarpariaeth tu hwnt i amserlen ysgol, gan gynnwys clybiau brecwast yn y ddwy ysgol. Nododd nad yw Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn yn cael ei defnyddio tu allan i oriau'r ysgol, oni bai am grwpiau sy'n ymwneud â'r ysgol, megis y gymdeithas rhieni ac athrawon. Mae'r ysgol hon yn cynnal clwb ar ôl ysgol ar ddwy noson bob wythnos.

3.22 Esboniodd fod Ysgol Pont Siôn Norton yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion ar un noson yr wythnos, ac yn cynnal 'clwb carco' ar ddwy noson ac yn cynnig clybiau ar ôl ysgol ar ddwy noson arall. Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedyn yn datgan:

*"Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hannog yn gryf i barhau i gynnal y ddarpariaeth ar ôl yr ysgol a'r ddarpariaeth Addysg i Oedolion sy'n cael ei chynnig ar hyn o bryd, gyda chyfle i ehangu ac ymestyn hyn os oes galw cydnabyddedig."* (Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, tud.1)

3.23 Roedd y Cyngor o'r farn bod newid cyfrwng iaith Ysgol Heol-y-Celyn o ysgol ddwy iaith i ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig am gynnig gwell profiad trochi ar gyfer y plant ac felly yn cynyddu cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg.

3.24 Roedd ei ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth hefyd yn dyfynnu'r isod o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned:

*"Yn ogystal â gwella'r ddarpariaeth, y gobaith yw y bydd ysgol newydd sydd â chyfleusterau'r 21ain Ganrif yn annog rhieni i ddewis addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant, gan gynorthwyo'r cyngor i gyflawni un o'r nodau allweddol sydd wedi'i amlinellu yn ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg."* (Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, tud.1)

3.25 Cyfeiriodd y Cyngor at yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg diwygiedig oedd yn nodi (fy nghyfieithiad i):

*"Yn ogystal, yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar ganllawiau drafft Llywodraeth Cymru ar Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 sy'n annog cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ac yn unol a'r Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, bydd [y Cyngor] yn ymgynghori ar sefydlu darpariaeth Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ADY cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol newydd."* (Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg Diwygiedig, tud.2)

3.26 Yn ei ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth fe wnaeth y Cyngor ddatgan:

*"Mae glynu at Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor a darparu amgylchedd dysgu'r 21ain Ganrif yn dangos ymrwymiad y Cyngor i leihau unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg."* (tud. 8)

3.27 Esboniodd y bydd darparu 60 o leoedd meithrin yn yr un safle yn annog rhagor o rieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg:

*"Mae'r awdurdod yn lliniaru'r awgrym posibl y bydd gostyngiad yn nifer y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn sgil teithio dros bellter hirach trwy dalu'r costau teithio ar gyfer y nifer isel o unigolion sydd wedi'u heffeithio. Mae hyn yn sicrhau bod y penderfyniad wedi cael ei wneud er mwyn cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg."* (tud. 8)

3.28 Darparodd y Cyngor dystiolaeth helaeth ynghylch y broses a ddilynodd wrth ymgymryd â'r penderfyniad i gau Ysgol Pont Siôn Norton. Mae'r dystiolaeth yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd a dulliau craffu'r penderfyniad.

3.29 Roedd yr ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth yn crynhoi ymatebion y Cyngor i wrthwynebiadau gan ran-ddeiliaid. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi cynnal y broses penderfynu yn dryloyw ac wedi darparu nifer o gyfleoedd i'r rhai sydd â diddordeb i fynegi eu barn:

> *"... trwy rhoi cyfle i fynegi barn ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, rydyn ni o'r farn ei bod hi'n darparu rhywbeth ychwanegol i'w hystyried ac yn herio'r unigolion sy'n gwneud penderfyniadau polisi cyn, yn ystod ac ar ôl penderfynu cau Ysgol Pont Siôn Norton."* (tud. 14)

3.30 Clôdd y Cyngor ei ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth drwy ddatgan:

> *"Cafodd cyfarfodydd y Cabinet eu cynnal yn unol â rheolau perthnasol gweithdrefn sydd wedi'u nodi yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Yn unol â'r Cyfansoddiad, rhaid i Aelodau'r Cabinet gynnal gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau. Cafodd Aelodau'r Cabinet wybod am y materion perthnasol cyn gwneud penderfyniad trwy adroddiadau Swyddogion a chawson nhw gyfle i ddarllen pob un o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad cyn ystyried Adroddiad yr Ymgynghoriad mewn unrhyw gyfarfod. Yn ôl barn y Cyngor, roedd yr holl drafod mewn perthynas â'r cynnig yma yn agored ac yn onest, ac arweiniodd unrhyw sylwadau a ddaeth i law at drafodaeth drylwyr a chadarn am y cynigion. Daethpwyd i benderfyniadau'r Cabinet trwy brosesau democrataidd y Cyngor lle cafodd y safonau dan sylw eu hystyried, a hynny fel proses a gweithdrefn.*
>
> *Mae'r Cyngor o'r farn ei fod wedi cydymffurfio â gofynion Safonau 88, 89 a 90 mewn perthynas ag achos CSG633 ac yn gyffredinol."* (tud. 17)

**Canfyddiadau**

3.31 Yn dilyn ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i mi gan y Cyngor, mae'n glir ei fod wedi cynnal asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Pont Siôn Norton ar addysg Gymraeg wrth fynd ati i adrefnu ysgolion ardal Pontypridd.

3.32 Dywedodd y Cyngor sawl tro ac mewn sawl dogfen bod y cynnig yn rhan o'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sydd yn cynllunio ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion sydd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y fwrdeistref. Rwyf yn derbyn y bydd y cynnig yn cynyddu'r nifer o lefydd fydd ar gael ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg o fewn dalgylchoedd y ddwy ysgol gynradd Gymraeg bresennol.

3.33 Cytunaf gyda dadansoddiad y Cyngor bod addysg cyfrwng Cymraeg yn unig mewn ysgol yn debygol o fod yn fwy llwyddiannus nag addysg ddwy ffrwd fel sydd yn bodoli yn Ysgol Heol-y-Celyn ar hyn o bryd drwy hwyluso defnydd o'r iaith. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu tuag at wireddu nod y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg o ehangu addysg trwy gyfrwng yr iaith.

3.34 Rwyf yn derbyn y bod y Cyngor wedi trafod a dadansoddi effaith y cynnig ar addysg y plant, a thrafod materion megis llefydd chwarae, hygyrchedd yr adeiladau ac ati er mwyn gwella darpariaeth addysg Gymraeg i'r cymunedau dan sylw.

3.35 Mae pellter teithio, ac oblygiadau hynny ar ddewis rhieni, hefyd yn ffactor perthnasol a dderbyniodd ystyriaeth. Nodwyd pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch effaith y cynigion ar deuluoedd Ysgol Pont Sion Norton. Fe wnaeth yr

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned adnabod amharodrwydd posib ymysg rhieni i anfon eu plant i ysgol cyfrwng Cymraeg a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt deithio ymhellach i gyrraedd yr ysgol, gyda'r canlyniad y buasent yn dewis darpariaeth cyfrwng Saesneg yn nes at adref. Rhoddwyd ystyriaeth i hyn hefyd yn yr Adroddiad Gwrthwynebu, lle nododd y Cyngor fod tua 69% o ddisgyblion Ysgol Pont Sion Norton ar hyn o bryd yn teithio ar fws, a'r rhai nad oeddent (gan eu bod yn byw o fewn y pellter cerdded o 1.5 milltir yn y dalgylch) yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol newydd.

3.36 Nodaf fodd bynnag nad oes tystiolaeth y rhoddwyd ystyriaeth briodol i effeithiau posib y cynigion ad-drefnu nad oeddent yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg ar yr iaith Gymraeg. Yn benodol, nid wyf wedi derbyn tystiolaeth y rhoddwyd ystyriaeth, pan gyflwynwyd y cynigion i ad-drefnu ysgolion cyfrwng Saesneg, i effeithiau'r cynigion hyn ar yr iaith Gymraeg, ac a fyddai'n bosibl lliniaru unrhyw effeithiau negyddol a chynyddu unrhyw effeithiau positif.

3.37 Hoffwn felly bwysleisio nad yw safonau'r iaith Gymraeg ond yn berthnasol i'r meysydd penderfynu sy'n uniongyrchol berthnasol i'r iaith Gymraeg (er enghraifft, addysg cyfrwng Cymraeg). Wrth wneud penderfyniad polisi, dylai'r corff sy'n ddarostyngedig i safonau 88-90 ystyried effeithiau posibl y penderfyniad ar yr iaith Gymraeg, hyd yn oed os nad yw'n ymddangos fod y penderfyniad yn ymwneud â'r iaith yn uniongyrchol. Os ydym o ddifri fod y Gymraeg yn berchen i bawb ac yn ffactor wrth gynllunio gwasanaethau, rhaid iddi gael ei hystyried wrth ymgymryd â phob penderfyniad perthnasol, yn enwedig penderfyniadau pwysig hir dymor megis darpariaeth addysg.

3.38 Yn fy marn i, nid yw'r dystiolaeth yr wyf wedi ei hystried yn dangos y rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i effeithiau'r cynigion i ad-drefnu ysgolion ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg yn y cymunedau o gwmpas yr ysgolion sydd wedi eu heffeithio. Mae'r Asesiad Effaith Cymunedol a'r dyfyniad o'r Adroddiad Gwrthwynebiad yn ystyried rhai effeithiau, ond mae llawer o'r effeithiau y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt gael eu hadnabod a'u hystyried wedi eu hanwybyddu.

3.39 Yn benodol, nid yw'r dystiolaeth yn dangos y rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i'r graddau y defnyddir y Gymraeg ar hyn o bryd yn y gymuned leol o gwmpas Ysgol Pont Sion Norton, a'r graddau y mae'r ysgol yn cyfrannu at hynny.

3.40 Yng nghyd-destun cynigion i gau ysgolion, mae data ac ystadegau yn aml yn gymorth i adnabod effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Yn wir, dibynnodd y Cyngor ar ddata ac ystadegau ar gyfer agweddau eraill ar ei gynigion, fel y data ystadegol yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a oedd yn asesu canran y disgyblion sy'n byw yn nalgylch ysgolion priodol, neu'r data ystadegol yn y ddogfen ymgynghoriad (tudalen 13) a oedd yn nodi bod canran y disgyblion sy'n dewis aros o fewn chweched dosbarth eu hysgol bresennol yn isel.

3.41 Mae'n ymddangos i mi na gasglwyd data neu ystadegau penodol mewn perthynas ag effeithiau'r cynigion ad-drefnu ar y Gymraeg. Yn benodol, nid oes tystiolaeth y casglwyd data ar y graddau y defnyddir y Gymraeg ac yn lleol ac wedyn ystyriaeth briodol yn cael ei roi i sut y gallai'r cynigion ad-drefnu newid hynny. Er nad oes unrhyw orfodaeth benodol o dan y safonau i gywain data neu ystadegau ar y graddau y defnyddir y Gymraeg ar hyn o bryd, mae'n anodd gweld sut y gallai'r sawl sy'n gwneud penderfyniad adnabod yn ystyrlon effeithiau'r penderfyniad polisi ar yr

iaith Gymraeg heb o leiaf ychydig o ddata neu ystadegau er mwyn medru deall y sefyllfa bresennol.

3.42 Parthed y penderfyniad penodol i gau Ysgol Pont Sion Norton, rwyf yn credu y dylai'r Cyngor fod wedi ystyried yr effeithiau canlynol wrth asesu effaith y penderfyniad ar y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned:

- Effaith ad-leoli gofal cofleidiol o ardal Ysgol Pont Siôn Norton.
- Effaith ad-leoli gweithgareddau ar ôl ysgol o ardal Ysgol Pont Siôn Norton.
- Effaith ad-leoli gweithgareddau grwpiau cymunedol o ardal Ysgol Pont Siôn Norton.

3.43 Nid yw'r un o'r ffactorau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth addysg ond maent i gyd yn berthnasol wrth ystyried effaith cau ysgol. Mae pob un o'r gweithgareddau yn cyfrannu mewn rhyw ffordd at gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau ysgol. Er bod y dystiolaeth yn adnabod y byddai lleoliad y gweithgareddau hyn yn gorfod newid yn sgil cau'r ysgol, nid yw'n dangos ystyriaeth o effaith y newid ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn yr ardal a effeithiwyd.

3.44 Er enghraifft, fe wnaeth y Cyngor adnabod angen i liniaru prif effaith cau'r ysgol sef y byddai'n anoddach i nifer o ddisgyblion fynychu'r safle newydd. Gan fod hyn a photensial i effeithio'n andwyol ar ddefnydd o addysg Gymraeg yn yr ardal, cynigiwyd fesurau er mwyn sicrhau bod trafnidiaeth ar gael i bob disgybl fyddai'n cael ei effeithio gan y newid. Byddwn wedi disgwyl gweld cydnabyddiaeth ac ystyriaeth debyg o effaith symud gofal cofleidiol (y clwb brecwast a'r 'clwb carco') a'r clybiau ar ôl ysgol o safle Ysgol Pont Siôn Norton. Ni wnaed hyn.

3.45 Yn yr un modd fe wnaeth y Cyngor adnabod bod gwersi Cymraeg i Oedolion yn cael eu cynnal ar y safle ond nid oes unrhyw asesiad o effaith terfynu'r gwersi yn eu lleoliad presennol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn lleol.

3.46 Nid fy swyddogaeth i yw mynegi barn ar ganlyniad ystyried yr effeithiau hyn, ond fy swyddogaeth i yw asesu a gafodd yr effeithiau hyn eu hystyried yn gydwybodol. Nid wyf yn credu y gwnaed hynny.

3.47 Nid yw'n ddigonol yn fy marn i, i gasglu'n syml mai cynyddu llefydd sydd ar gael ar gyfer addysg Gymraeg cynradd yw'r unig effaith o ran cydraddoldeb; ac i ddweud gan fod modd i'r plant o fewn dalgylch Ysgol Pont Siôn Norton fynychu'r ysgol drwy drafnidiaeth, fod hynny o reidrwydd yn golygu bod yr holl gynnig yn cael effaith bositif ar ran y Gymraeg. Rwyf wedi adnabod uchod ffactorau sydd yn sicr â photensial i gael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn lleol ac fe ddylai'r rhain fod wedi eu hystyried yn llawn cyn i'r penderfyniad gael ei wneud.

3.48 Mae penderfyniadau polisi sy'n ymwneud â darpariaeth addysg yn gallu cael effeithiau cymhleth ar ddefnydd o'r Gymraeg yn gymunedol, ar ddewisiadau a wneir mewn perthynas ag addysg Gymraeg ac ar agweddau tuag at yr iaith Gymraeg yn lleol. Gall y rhain fod yn gymysgedd o effeithiau positif, niwtral a negyddol. Nid wyf yn fodlon y gwnaed ymdrech ddigonol i adnabod y gymysgedd o effeithiau yn yr achos hwn.

3.49 Diben sicrhau fod effeithiau negyddol penderfyniad polisi ar y Gymraeg yn cael eu hadnabod yw i alluogi camau i gael eu cymryd i liniaru'r effeithiau hyn cyn i'r

penderfyniad gael ei wneud. Yn yr un modd, diben adnabod effeithiau positif yw i alluogi camau i gael eu cymryd i gynyddu'r effeithiau hynny ymhellach.

3.50 Mae'r safonau yn ei gwneud yn agored i'r Cyngor i barhau gyda'r penderfyniad doed a ddêl neu, gall gasglu bod yr effeithiau andwyol, wedi iddynt gael eu hadnabod yn ddigonol, mor sylweddol fel y dylai edrych eto ar y penderfyniad. Gallai'r Cyngor hefyd edrych eto ar y penderfyniad i ystyried a ellid ei ail-wneud er mwyn cael effeithiau positif, neu effeithiau fwy positif, ar y Gymraeg na'r hyn yr arfaethwyd yn y lle cyntaf, neu a ellid sicrhau mesurau lliniaru pellach er mwyn atal neu leihau effaith andwyol y penderfyniad.

3.51 Fel yr wyf yn nodi uchod, rwyf o'r farn fod y safonau yn gosod gofyniad ar y Cyngor i adnabod effeithiau pob un o'i benderfyniadau polisi, ac felly yn yr achos hwn, roedd gofyn iddo asesu'r cynigion ad-drefnu yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys y penderfyniadau yn ymwneud ag ysgolion cyfrwng Saesneg.

3.52 Yn fy marn i, nid yw'r dystiolaeth yn dangos fod y Cyngor wedi gwneud ymdrech gydwybodol i adnabod ac yna ystyried yr effeithiau y byddai ei benderfyniadau polisi yn yr achos hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl defnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3.53 Nid wyf ychwaith yn fodlon fod y dystiolaeth yn dangos fod y Cyngor wedi gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau mwy positif, neu lai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 88**

3.54 Dyfarnaf fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safon 88 yn yr achos hwn.

3.55 Sail fy nyfarniad yw nad yw'r dystiolaeth yn dangos fod y Cyngor wedi gwneud ymdrech gydwybodol i adnabod ac yna ystyried yr effeithiau y byddai ei benderfyniadau polisi i ad-drefnu ysgolion ardal Pontypridd yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 89**

3.56 Dyfarnaf fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safon 89 yn yr achos hwn.

3.57 Sail fy nyfarniad yw nad yw'r dystiolaeth yn dangos fod y Cyngor wedi gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniadau polisi i ad-drefnu ysgolion yn ardal Pontypridd fel y byddent yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 90**

3.58 Dyfarnaf fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safon 90 yn yr achos hwn.

3.59 Sail fy nyfarniad yw nad yw'r dystiolaeth yn dangos fod y Cyngor wedi gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniadau polisi i ad-drefnu ysgolion yn ardal Pontypridd fel na fyddent yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddent yn cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Gweithredu pellach**

3.60 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach ble bu methiant. Yn achos fy nyfarniad fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 88, 89 a 90, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd wrth ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan y Cyngor ar y Gymraeg yn y dyfodol.

3.91 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

**Safonau 88, 89 a 90: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg**

1. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi'r ystyriaeth a roddir i unrhyw effeithiau y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr i'r diben hwn.

2. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi'r ystyriaeth a roddir i sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau fwy positif, ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr i'r diben hwn.

3. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi'r ystyriaeth a roddir i sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr i'r diben hwn.

*Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.*

**Safonau 88, 89 a 90: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg**

4. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan gyhoeddus, a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad yn adran newyddion y wefan honno.

*Amserlen: O fewn chwe wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.*

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Hysbysiad penderfynu

At: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Rhif achos: CSG633

Dyddiad: 17 Mehefin 2021

## Dyfarniad

Yn unol â'm pwerau dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cynhaliais ymchwiliad er mwyn dyfarnu a fu methiant gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau'r Gymraeg y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Mae'r safonau oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad fel a ganlyn:

**Safon 88**
Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar–

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Safon 89**
Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar–

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Safon 90**
Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Diwrnod gosod:** 30 Mawrth 2016

**Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 88**
Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 88 yn yr achos hwn. Sail fy nyfarniad yw nad yw'r dystiolaeth yn dangos fod y Cyngor wedi gwneud ymdrech gydwybodol i adnabod ac yna ystyried yr effeithiau y byddai ei benderfyniadau polisi i ad-drefnu ysgolion ardal Pontypridd yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 89**
Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 89 yn yr achos hwn. Sail fy nyfarniad yw nad yw'r dystiolaeth yn dangos fod y Cyngor wedi gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniadau polisi i ad-drefnu ysgolion yn ardal Pontypridd fel y byddent yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 90**
Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 90 yn yr achos hwn. Sail fy nyfarniad yw nad yw'r dystiolaeth yn dangos fod y Cyngor wedi gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniadau polisi i ad-drefnu ysgolion yn ardal Pontypridd fel na fyddent yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddent yn cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Gweithredu pellach

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Mae manylion y gweithredu pellach isod.

**Safonau 88, 89 a 90: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg**

1. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi'r ystyriaeth a roddir i unrhyw effeithiau y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr i'r diben hwn.

2. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi'r ystyriaeth a roddir i sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau fwy positif, ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr i'r diben hwn.

3. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi'r ystyriaeth a roddir i sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr i'r diben hwn.

*Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.*

**Safonau 88, 89 a 90: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg**

4. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan gyhoeddus, a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad yn adran newyddion y wefan honno.

*Amserlen: O fewn chwe wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.*

## Hawl i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg

Pan fo'r Comisiynydd wedi dyfarnu na fu methiant i gydymffurfio â safon, gall yr achwynydd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Pan fo'r Comisiynydd yn wedi dyfarnu bod person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol, gall y person hwnnw apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Yn ogystal, pan fo'r Comisiynydd wedi penderfynu cymryd camau gorfodi mewn cysylltiad â methiant yn unol ag adran 79 Mesur y Gymraeg, gall y Cyngor apelio i Dribiwnlys y Gymraeg ar y sail fod y camau gorfodi'n afresymol neu'n anghymesur. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses yn y daflen amgaeedig, ac ar wefan y Tribiwnlys.

## Canlyniadau peidio cydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad penderfynu

Os yw'r Cyngor yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad penderfynu hwn, caiff y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio.